

Digartrefedd, troi allan ac adfeddu

Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
[**ymchwil.senedd.cymru**](http://ymchwil.senedd.cymru)

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: [**@SeneddYmchwil**](https://twitter.com/SeneddYmchwil)
Ymchwil y Senedd: [**ymchwil.senedd.cymru**](http://ymchwil.senedd.cymru)
Tanysgrifiwch: [**Cylchlythyr**](http://cylchlythyr.senedd.cymru)

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Digartrefedd, troi allan ac adfeddu

Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026

Awdur:

Dr Jennie Bibbings

Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth am hawliau tai sylfaenol yng Nghymru a ble i droi i gael cymorth. Mae'n cyfeirio at ffynonellau cymorth sydd ar gael i etholwyr sy'n wynebu digartrefedd, cael eu troi allan o dai rhent, neu'n wynebu adfeddu cartref â morgais.

Mae Ymchwil y Senedd yn darparu cymorth ymchwil diduedd i Aelodau o'r Senedd. Ni allwn ohebu yn uniongyrchol ag unigolion neu sefydliadau eraill, na rhoi cyngor na sylwadau ar achosion unigol.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y canllaw hwn at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig i gefnogi gwaith Aelodau o'r Senedd. Ni fwriedir iddo gymryd lle deddfwriaeth, canllawiau, polisi na chyngor proffesiynol.





Cynnwys

1. Os ydych mewn perygl o golli eich cartref	6
2. Digartrefedd yng Nghymru.....	7
Beth sy'n cyfrif fel digartrefedd?.....	7
Cymorth gan eich awdurdod lleol.....	7
Os nad oes gennych unman diogel i aros heno	8
3. Troi allan os ydych yn rhentu'ch cartref yng Nghymru.....	9
Cyfraith rhentu yng Nghymru.....	9
Sut mae troi allan yn gweithio.....	9
Cam 1: Hysbysiad	9
Cam 2: Achos llys.....	9
Cam 3: Beili.....	10
Troi allan anghyfreithlon ac aflonyddu.....	10
4. Ôl-ddyledion morgais ac adfeddu	11
Ydych chi'n cael trafferth i dalu eich morgais?	11
Cymorth i Aros – Cymru.....	11
Os yw achos llys wedi dechrau.....	12
5. Ffynonellau i gael cyngor ynghylch tai.....	13

1. Os ydych mewn perygl o golli eich cartref

Nid oes angen aros nes i chi golli eich cartref i ofyn am gymorth.

Yng Nghymru, mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau cyfreithiol i helpu i atal digartrefedd cyn iddo ddigwydd, ac i ymdrin â'r mater pan fydd yn digwydd.

Mae hefyd wasanaethau cyngori a all roi cyngor annibynnol am ddim i chi ac, mewn rhai achosion, a all eich cynrychioli yn y llys os oes angen.

Mae'n bosibl yr hoffech **chwilio am gyngor cyn gynted â phosibl** os ydych chi:

- wedi cael gorchymyn troi allan;
- wedi mynd ar ei hôl hi gyda thaliadau rhent neu forgais;
- wedi cael gwybod bod rhaid i chi adael ble rydych chi'n byw;
- yn teimlo'n anniogel yn aros yn eich cartref; neu
- wedi cael papurau llys neu lythyrau gan fenthyciwr.

Mae rhestr o ffynonellau cyngor a chymorth i'w gweld ar ddiwedd y canllaw hwn.

2. Digartrefedd yng Nghymru

Beth sy'n cyfrif fel digartrefedd?

Nid oes rhaid bod chi'n cysgu ar y stryd i fod yn ddigartref yn gyfreithiol.

Efallai eich bod yn ddigartref os:

- nad oes gennych rywle y mae gennych hawl gyfreithiol i aros ynddo;
- na allwch aros yn ddiogel lle rydych chi (er enghraifft oherwydd camdrin neu drais);
- ydych yn "symud o un sofffa i'r llall" gyda ffrindiau neu deulu; neu
- yn byw mewn llety nad yw'n rhesymol i chi aros ynddo (er enghraifft, oherwydd cyflwr gwael y llety).

Diffinir unigolyn fel un sydd "o dan fygythiad o ddigartrefedd" os yw'n debygol y bydd yr unigolyn yn dod yn ddigartref o fewn 56 o ddiwrnodau.

Mae tudalennau gwe Cyngor Ar-lein Shelter Cymru yn cynnwys **gwybodaeth am lawer o agweddau ar ddigartrefedd**, gan gynnwys sut mae'r gyfraith yn gweithio a beth yw eich hawliau.

Cymorth gan eich awdurdod lleol

Yn ôl **Ddeddf Tai (Cymru) 2014**, rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cyngor ar ddigartrefedd a'i atal, a hynny am ddim i unrhyw unigolyn yn eu hardal.

Os ydych chi'n ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref, gallwch wneud cais i'ch awdurdod lleol. Dylai'r awdurdod asesu eich sefyllfa, ac, os ydych chi'n bodloni meini prawf penodol, gall:

- ddarparu llety brys i chi; neu
- eich helpu i gadw'ch cartref neu ddod o hyd i gartref newydd.

Pan fyddwch yn cysylltu â'r awdurdod lleol, gofynnwch am y tîm **Dewisiadau Tai** neu'r **Tîm Digartrefedd**.

Mae cyngor ar-lein Cyngor ar Bopeth yn cynnwys gwybodaeth am **sut i gael cymorth gan eich awdurdod lleol**.

Mae gan wefan Shelter Cymru **ganllaw cam wrth gam** i wneud cais o ran digartrefedd.

Os nad oes gennych unman diogel i aros heno

Os nad oes gennych unman diogel i aros, gallwch gysylltu â'ch awdurdod lleol. Os ydych chi'n bodloni meini prawf penodol, mae'n bosibl bod gan yr awdurdod ddyletswydd gyfreithiol i ddod o hyd i lety brys i chi. Gallwch hefyd ffonio llinell gymorth Shelter Cymru (mae'r manylion ar ddiwedd y canllaw hwn).

3. Troi allan os ydych yn rhentu'ch cartref yng Nghymru

Cyfraith rhentu yng Nghymru

Mae pob cartref rhent yng Nghymru (gyda nifer gyfyngedig o eithriadau) wedi'i gynnwys o dan **Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.**

Mae tenantiaid bellach yn cael eu galw yn **ddeiliaid contract**, ac mae cytundebau yn cael eu galw yn **gontractau meddiannaeth**.

Mae Llywodraeth Cymru wedi **cyhoeddi rhywfaint o wybodaeth** am oblygiadau'r Ddeddf i denantiaid.

Sut mae troi allan yn gweithio

Efallai yr hoffech **ofyn am gyngor cyn gynted â phosibl** os ydych wedi cael gorchymyn troi allan.

Mae'r rheolau ar droi allan yn wahanol yn dibynnu ar ba fath o gytundeb rhentu sydd gennych. Mae gan y rhan fwyaf o bobl sy'n rhentu gan landlord preifat gontract safonol cyfnodol neu gontract safonol tymor penodol, tra bod gan y rhan fwyaf o bobl sy'n rhentu gan landlord cymdeithasol gontract diogel, ond mae rhai eithriadau i hyn.

Ni all landlord eich troi allan heb ddilyn y weithdrefn gyfreithiol gywir. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae tri cham i gael eich troi allan. Mae'r camau hyn yn berthnasol p'un a oes gennych landlord preifat neu landlord cymdeithasol (h.y. eich landlord yw'r awdurdod lleol neu gymdeithas dai):

Cam 1: Hysbysiad

Rhaid i'ch landlord roi hysbysiad ysgrifenedig i chi yn gyntaf. Rhaid i'r hysbysiad ddarparu'r hyd cyfnod hysbysu cywir.

Nid yw'n **ofynnol yn gyfreithiol i chi adael** pan ddaw'r cyfnod hysbysu i ben.

Cam 2: Achos llys

Os na fyddwch yn gadael, rhaid i'ch landlord wneud cais i'r llys am orchymyn meddiant. Dim ond ar ôl y dyddiad a nodir yn y gorchymyn y gall wneud hyn.

Os bydd landlord yn cymryd camau cyfreithiol, gallant ofyn i'r llys orchymyn i chi dalu rhai o'u costau, fel ffi'r cais am y llys. Nid yw hyn yn digwydd ym mhob achos. Gall cynghorydd helpu i egluro beth allai goblygiadau hyn fod i chi.

Cam 3: Beili

Os rhoddir gorchymyn meddiant ac nad ydych wedi gadael erbyn y dyddiad a roddir, rhaid i'r landlord drefnu i feili llys sirol gyflawni'r troi allan.

Dim ond beili a benodwyd gan y llys sy'n gweithredu gyda gwarant troi allan dilys all eich troi allan yn gorfforol.

Os bydd unrhyw un yn ceisio eich gorfodi i adael eich cartref heb ddilyn y broses hon, mae'n debygol o fod yn droi allan anghyfreithlon.

Os ydych chi'n ansicr pa reolau troi allan sy'n berthnasol i'ch cytundeb rhentu, gallwch gael cyngor gan gynghorydd tai.

Mae gwybodaeth am droi allan o dai rhent ar gael ar dudalennau [**Shelter Cymru**](#) a [**Chyngor ar Bopeth**](#) ar y we.

Troi allan anghyfreithlon ac aflonyddu

Mae'r materion hyn yn codi amlaf yn y sector rhentu preifat, ond mae'r gyfraith yn amddiffyn pob tenant a deiliad contract, waeth pwy yw eu landlord.

Mae'n drosedd i landlord:

- newid cloeon;
- eich gorfodi allan heb orchymyn llys;
- torri'r cyflenwad nwy, trydan neu ddŵr i ffwrdd yn fwriadol i wneud i chi adael; neu
- eich aflonyddu, eich bygwth neu eich dychryn i adael.

Mae gwybodaeth am beth i'w wneud os ydych yn wynebu aflonyddu a/neu gael eich troi allan yn anghyfreithlon ar gael ar dudalennau [**Shelter Cymru**](#) a [**Chyngor ar Bopeth**](#) ar y we.

4. Ôl-ddyledion morgais ac adfeddu

Ydych chi'n cael trafferth i dalu eich morgais?

Os byddwch yn mynd ar ei hôl hi gyda'ch taliadau morgais, nid yw **adfeddu** yn digwydd ar unwaith **o reidrwydd**. Dim ond fel dewis olaf y bydd y rhan fwyaf o fenthycwyr yn adfeddu eich cartref.

Efallai y byddwch yn parhau i allu:

- cytuno ar gynllun ad-dalu;
- oedi neu atal achos llys; ac
- aros yn eich cartref.

Mae cael cyngor yn gynnar yn gwella eich dewisiadau yn fawr.

Mae gwybodaeth am beth i'w wneud os oes gennych chi ôl-ddyledion morgais yng Nghymru ar gael ar wefan [Cyngor ar Bopeth](#).

Mae gwybodaeth am beth i'w wneud os ydych chi'n wynebu adfeddu yn sgil dyledion morgais ar gael ar wefan [Shelter Cymru](#).

Cymorth i Aros – Cymru

Os ydych chi'n cael trafferth i dalu eich taliadau morgais yn barhaus, efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth drwy'r cynllun **Cymorth i Aros – Cymru**.

Llywodraeth Cymru sy'n rhedeg y cynllun hwn ac mae wedi'i gynllunio i helpu perchnogion sydd mewn perygl o gael eu tai wedi'u hadfeddu i aros yn eu cartrefi. Gall y cymorth gynnwys:

- cyngor am ddim ac annibynnol ar ddyledion;
- cyngor morgais annibynnol; a
- benthyciad rhannu ecwiti i helpu i leihau taliadau morgais misol i lefel fwy fforddiadwy.

Dim ond yng Nghymru y mae Cymorth i Aros ar gael ac mae'n amodol ar feini prawf cymhwysedd. Fel arfer, bydd angen i chi fod eisoes wedi ymgysylltu â'ch benthyciwr morgais a gofyn am gyngor ar ddyledion.

Mae gwybodaeth am y cynllun a sut i wneud cais ar gael ar [**wefan Llywodraeth Cymru**](#). Gall cynghorydd o Shelter Cymru neu Gyngor ar Bopeth hefyd eich helpu i wybod a allai'r opsiwn hwn fod yn addas i chi.

Os yw achos llys wedi dechrau

Mae cymorth ar gael ym mhob cam, gan gynnwys:

- cyn dod gerbron llys;
- yn y gwrandawriad; ac
- ar ôl gorchymyn adfeddu.

Mae [**tudalennau Cyngor Ar-lein**](#) Shelter Cymru yn egluro'r camau a beth allwch chi ei wneud.

Os yw benthyciwr morgais eich landlord yn adfeddu'r eiddo

Os ydych chi'n rhentu'n breifat a bod benthyciwr morgais eich landlord yn cymryd meddiant o'r cartref:

- mae'n bosibl y gallwch ohirio'r troi allan am hyd at ddau fis; neu
- efallai bod gennych hawliau cyfyngedig i aros dros dro.

Gofynnwch am gyngor ar frys os byddwch yn cael llythyrau gan fenthyciwr neu gan lys.

Mae [**gwefan**](#) Cyngor ar Bopeth yn cynnwys gwybodaeth am beth i'w wneud os yw benthyciwr morgais eich landlord yn adfeddu eich cartref.

5. Ffynonellau i gael cyngor ynghylch tai

Mae **Shelter Cymru** yn darparu cyngor tai arbenigol am ddim yn y ffyrdd a ganlyn:

- llinell gymorth ffôn sydd ar agor o 9am tan 4pm, o ddydd Llun i dydd Gwener (08000 495 495); a
- gwasanaeth negeseuon gwib sydd ar agor o 9am tan 4pm, o ddydd Llun i dydd Gwener.

Mae **Cyngor ar Bopeth** yn cynnig cyngor ar-lein, cyngor dros y ffôn a chyngor wyneb yn wyneb. Gallwch:

- ddefnyddio eu gwefan i ddod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer eich swyddfa Cyngor ar Bopeth leol; neu
- ffonio eu gwasanaeth Advicelink cenedlaethol ar 0800 702 2020 neu gallwch sgwrsio â chynghorydd ar-lein (ar gael 9am-5pm, dydd Llun-dydd Gwener).

I gael cymorth digartrefedd, **cysylltwch â'ch awdurdod lleol**. Gofynnwch am y tîm **Dewisiadau Tai** neu'r **Tîm Digartrefedd**. Gallwch ddod o hyd i'ch awdurdod lleol gan ddefnyddio [offeryn chwilio](#) Llywodraeth Cymru.